# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 – Cymhwyso’R Ddeddf a Dcrht I Bersonau a Chyrff Penodol

### *Adran 43 - Personau sy’n gweithredu fel cynrychiolwyr*

59. Mae’r adran hon yn ymdrin â’r modd y mae darpariaethau’r Ddeddf hon a DCRhT yn gymwys i berson sy’n gweithredu fel cynrychiolydd, megis pan fo person yn gweithredu ar ran rhywun y mae llys yn cyfarwyddo ac yn rheoli ei asedau, neu ysgutor ystad person a fu farw. Yn y sefyllfa hon, y person sy’n gweithredu fel cynrychiolydd sy’n gyfrifol am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf hon (megis dychwelyd ffurflen dreth a thalu unrhyw dreth sy’n ddyledus). Mae’r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch derbynwyr.